


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol y Rhws, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 21 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-507-9

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	12
	Ansawdd Profiad y Claf	12
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	16
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	23
4.	Y camau nesaf	29
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	31
	Atodiad C – Cynllun Gwella	Error! Bookmark not defined. 2



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol y Rhws, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 21 Gorffennaf 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pump gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn am y gofal a'r gwasanaeth a gafwyd ym Mhractis Deintyddol y Rhws. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth cyffredinol yn 'dda iawn'. Ni chofnodwyd unrhyw radd negyddol mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar ofal na'r gwasanaeth a ddarperir.

Nododd cleifion fod mynediad da at apwyntiadau a gofal deintyddol brys, ac roeddent yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth dda am opsiynau triniaeth, risgiau, manteision a chostau. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion fod eu hanes meddygol wedi cael ei adolygu cyn y driniaeth. Roedd yr adborth am y staff yn gyson gadarnhaol, gyda chleifion yn disgrifio gofal a oedd yn dangos parch, yn rhoi gwybodaeth ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan nodi eu bod wedi cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Hyrwyddodd y practis iechyd y geg da drwy ddarparu amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd, gan gynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu, deunyddiau addysg iechyd y geg, taflenni gwybodaeth i gleifion a gwybodaeth ddigidol drwy sgriniau teledu a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd gwybodaeth gyfredol am y practis, ffioedd triniaeth a threfniadau y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion drwy sawl ffynhonnell, gan gynnwys gwefan y practis.

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gofal teg. Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion, gan gynnwys ystafelloedd trin preifat a chytundebau cyfrinachedd ar gyfer staff. Roedd y practis yn cefnogi anghenion cyfathrebu cleifion drwy wasanaeth dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, mynediad at wasanaethau cyfieithu, gwybodaeth mewn fformatau amgen a systemau i nodi cleifion sy'n siarad Cymraeg. Roedd y staff hefyd yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy hyfforddiant, archwiliadau anabledd ac addasiadau rhesymol, gan gynnwys mynediad ar y llawr gwaelod, canllawiau ychwanegol a gwybodaeth mewn print bras lle bo angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoi profiadau cadarnhaol yn gyson i gleifion, gyda phob ymatebydd yn dweud bod y gwasanaeth yn un da iawn ac yn nodi eu bod wedi cael eu trin gydag urddas, parch a phroffesiynoldeb
- Cyfathrebu'n effeithiol â chleifion, gan sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth glir am opsiynau triniaeth, risgiau, manteision, costau ac ôl-ofal, a'u bod yn cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal

- Roedd cydraddoldeb, hygyrchedd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu hyrwyddo, drwy wasanaethau dwyieithog, mynediad at gymorth cyfieithu, addasiadau rhesymol ar gyfer cleifion ag anghenion ychwanegol, a threfniadau a oedd yn parchu dewisiadau a hawliau unigol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn dangos trefniadau cadarn i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon. Roedd systemau a gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi diogelwch cleifion a phrosesau atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau, diogelu, llywodraethu clinigol a chadw cofnodion. Roedd y staff yn wybodus am eu cyfrifoldebau ac yn gweithio yn unol â pholisïau sefydledig a chanllawiau proffesiynol cyfredol.

Roedd amgylchedd y practis yn lân, yn fodern, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd y safle yn cynnwys darparu pedair deintyddfa, mannau aros addas a chyfleusterau priodol i gleifion a staff. Roedd trefniadau iechyd a diogelwch cynhwysfawr ar waith, wedi'u hategu gan asesiadau risg, cynllun parhad busnes a thystysgrifau cynnal a chadw a diogelwch cyfredol. Roedd mesurau diogelwch tân wedi'u rheoli'n dda, gyda phrofion rheolaidd, hyfforddiant i'r staff ac ymarferion tân ac roedd gwybodaeth glir am adael yr adeilad oherwydd tân ar gael ledled y practis. Roedd y practis hefyd yn hyrwyddo hygrychedd drwy ddarparu cyfleusterau trin ar y llawr gwaelod a chyfleusterau hygrych i gleifion.

Roedd safonau uchel o ran atal a rheoli heintiau yn amlwg drwy'r practis cyfan. Roedd polisïau, amserlenni glanhau a gweithdrefnau dihalogi priodol ar waith ac roedd y staff yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion rheoli heintiau. Roedd prosesau dihalogi wedi'u trefnu'n effeithiol. Roedd cyfarpar yn cael ei brofi'n rheolaidd, roedd gwiriadau wedi'u dogfennu ac roedd gweithgarwch archwilio yn mynd rhagddo'n barhaus. Gwelwyd bod y systemau ar gyfer rheoli gwastraff, diogelwch offer miniog, cymorth iechyd galwedigaethol a rheoli COSHH yn briodol hefyd.

Roedd gan y practis drefniadau cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio, eu monitro a'u gwaredu'n ddiogel, gyda systemau clir ar gyfer rheoli stoc a chadarnhau dyddiadau dod i ben. Roedd meddyginiaethau brys a chyfarpar adfywio priodol ar gael. Roedd y rhain yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwirio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant brys perthnasol ac roeddent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol.

Roedd y trefniadau diogelu yn gynhwysfawr. Roedd polisïau, gwybodaeth gyswllt leol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar gael yn rhwydd, ac roedd y staff yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a oedd yn briodol i'w rôl ac roeddent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon.

Roedd y cyfarpar clinigol wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd trefniadau gwasanaethu a chynnal a chadw priodol ar waith, ac roedd y staff yn cael hyfforddiant i sicrhau y gallent ddefnyddio

cyfarpar yn ddiogel ac yn effeithiol. Dangosodd y practis ei fod yn cydymffurfio â gofynion IR(ME)R, gyda threfniadau cynhwysfawr ar gyfer diogelu rhag ymbelydredd, prosesau sicrhau ansawdd a systemau llywodraethu yn cefnogi defnydd diogel o radiograffeg ddeintyddol.

Roedd y practis yn dilyn canllawiau proffesiynol, statudol a rheoleiddiol wrth asesu, diagnosio a thrin cleifion. Roedd Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio i leihau'r risg o dynnu dannedd o'r man anghywir, ac roedd y staff yn ceisio cyngor proffesiynol pan oedd ei angen i'w helpu i wneud penderfyniadau diogel.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon uchel. Roedd y practis yn defnyddio system gwmwl ar gyfer rheoli cleifion ochr yn ochr ag offer digidol fel KIROKU a meddalwedd radiograffeg â chymorth deallusrwydd artiffisial i wella prosesau cadw cofnodion a gwneud penderfyniadau clinigol. Roedd cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd modd i'r grŵp ehangach o bractisau eu gweld at ddibenion parhad gofal, apwyntiadau brys ac atgyfeiriadau. Gwelwyd enghreifftiau o gadw cofnodion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys dogfennu anghenion cyfathrebu cleifion. Roedd trefniadau cadarn hefyd ar waith ar gyfer monitro atgyfeiriadau, gan gynnwys atgyfeiriadau lle roedd amheuaeth o ganser y geg.

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal effeithlon. Roedd llwybrau triniaeth yn cael eu cefnogi gan hylenydd deintyddol a therapydd deintyddol, roedd atgyfeiriadau yn cael eu rheoli drwy system electronig drefnus, ac roedd y practis yn sicrhau bod cymaint o apwyntiadau â phosibl ar gael drwy brosesau rheoli apwyntiadau a ganslwyd. Roedd cleifion roedd angen gofal brys arnynt yn cael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau deintyddol brys y tu allan i oriau gweithredu arferol. Roedd lefelau staffio ac adnoddau clinigol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth o gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal systemau llywodraethu a diogelwch cadarn, gan gynnwys rheoli risg yn effeithiol, diogelwch tân, trefniadau diogelu, rheoli meddyginiaethau a chydymffurfio â rheoliadau ymbelydredd
- Dangos safonau uchel o ran cadw cofnodion a llywodraethu clinigol, gyda chymorth systemau digidol fel Dentally, KIROKU ac offer radiograffeg â chymorth deallusrwydd artiffisial, a oedd yn hyrwyddo parhad gofal ac yn rheoli atgyfeiriadau yn effeithiol
- Darparu gofal cleifion diogel ac effeithiol drwy drefniadau atal a rheoli heintiau cadarn, cyfarpar sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, archwiliadau rheolaidd ac ymrwymiad clir i ddilyn canllawiau proffesiynol cyfredol ac arfer gorau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn dangos arweinyddiaeth effeithiol, diwylliant sefydliadol cadarnhaol ac ymrwymiad cryf i welliant parhaus. Roedd adborth y staff yn hynod gadarnhaol ac yn adlewyrchu amgylchedd gwaith cefnogol lle roedd cyflogeion yn teimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi, wedi'u hyfforddi'n briodol ac wedi'u paratoi i ddarparu gofal cleifion o ansawdd uchel. Roedd systemau llywodraethu yn sefydledig, ac roedd tystiolaeth glir o arweinyddiaeth effeithiol, ymgysylltu â staff a gweithgarwch gwella ansawdd.

Nododd y staff eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau, wedi cael arfarniadau rheolaidd a bod y cyfleusterau, y cyfarpar a'r systemau technoleg gwybodaeth a oedd eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ar gael iddynt. Disgrifiodd y staff ddiwylliant a oedd yn canolbwyntio ar y claf yn gyson, gan nodi mai gofal cleifion oedd blaenoriaeth bennaf y practis. Roeddent hefyd yn teimlo bod digon o staff a chymysgedd sgiliau priodol i'w galluogi i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd gan y practis drefniadau rheoli a llywodraethu clir ar waith. Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n effeithiol drwy'r gweithlu cyfan. Roedd polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu rheoli drwy system electronig, a oedd yn galluogi'r staff i gael gafael ar ganllawiau cyfredol a gofynion sefydliadol cyfredol, eu darllen a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y practis hefyd wedi cwblhau'r asesiad Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i wella ansawdd a datblygu gwasanaethau.

Roedd gan y gweithlu sgiliau priodol ac roeddent yn cael hyfforddiant a chymorth priodol. Roedd y prosesau recriwtio yn gadarn ac yn sicrhau bod y staff yn bodloni gofynion addasrwydd i weithio cyn dechrau cyflogaeth. Roedd y trefniadau sefydlu, goruchwyllo, arfarnu a hyfforddi yn hirsefydlog, ac roedd cyfleoedd mentora, datblygiad proffesiynol parhaus a chymorth llesiant ar gael i'r staff. Disgrifiodd y staff ddiwylliant agored a chefnogol lle y gellid codi pryderon yn ddirwystr drwy systemau adrodd sefydledig, cyfarfodydd tîm a threfniadau chwythu'r chwiban.

Roedd y practis yn annog adborth yn weithredol ac yn defnyddio gwybodaeth gan gleifion, staff a digwyddiadau i sbarduno gwelliannau. Roedd cleifion yn gallu rhoi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arolygon electronig, adolygiadau ar-lein a blychau awgrymiadau. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod y practis wedi adolygu'r adborth ac wedi gwneud gwelliannau lle bo angen. Er enghraifft, ar ôl cael

adborth am gostau triniaeth, cryfhaodd y practis ei brosesau i sicrhau bod cleifion yn adolygu cynlluniau triniaeth a manylion costau ac yn cytuno arnynt cyn gadael y practis.

Roedd diwylliant diogelwch cadarnhaol yn amlwg drwy'r practis cyfan. Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth glir o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a phryderon. Roedd digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi'n electronig, eu hadolygu a'u trafod â'r staff er mwyn cefnogi dysgu ar y cyd a lleihau risgiau yn y dyfodol.

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad cryf i wella ansawdd. Roedd rhaglen gynhwysfawr o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael ei chynnal, gan gynnwys archwiliadau o bresgripsiynu gwrthficrobaidd, atal a rheoli heintiau, cadw cofnodion, amseroedd aros, gwastraff gofal iechyd, mynediad i bobl anabl ac iechyd a diogelwch. Roedd y practis yn mynd ati'n weithredol i gymryd rhan mewn mentrau gwella ansawdd a gynigiwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac mewn gweithgareddau adolygu gan gymheiriaid drwy grŵp ehangach Knights Dental. Roedd hyn yn cefnogi dysgu ar y cyd, datblygiad proffesiynol a'r gwaith o roi arferion gorau ar waith drwy'r gwasanaeth cyfan.

Roedd y practis hefyd yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid allanol, gan gynnwys meddygon teulu, gwasanaethau gofal eilaidd, timau diogelu a grwpiau clwstwr deintyddol lleol. Roedd gwaith partneriaeth o'r fath yn cefnogi gofal cleifion integredig, datblygiad gwasanaethau a phrosesau rhannu gwybodaeth a dysgu proffesiynol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dangos trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu cadarn, gyda strwythurau rheoli clir, systemau cyfathrebu effeithiol, polisïau cadarn a dull rhagweithiol o reoli risgiau a chynnal safonau.
- Datblygu diwylliant cadarnhaol a chefnogol i'r gweithlu, lle roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu hyfforddi, eu cefnogi a'u bod yn gallu codi pryderon yn agored, gan gyfrannu at lefelau uchel o foddhad staff a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Dangos ymrwymiad cryf i wella ansawdd yn barhaus, trwy raglenni archwilio cynhwysfawr, defnydd effeithiol o adborth cleifion, cymryd rhan mewn mentrau a gynigiwyd gan AaGIC, gweithgareddau adolygu gan gymheiriaid a chydweithio o fewn grŵp ehangach Knights Dental.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn hynod gadarnhaol ac yn dangos lefel uchel o foddhad cleifion â'r gofal a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Roedd pob un a ymatebodd o'r farn fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn'. Ni chofnodwyd unrhyw adborth negyddol mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar ofal na'r gwasanaeth a ddarperir.

Roedd cleifion yn ganmoliaethus iawn ynglŷn â'r staff a'r prosesau cyfathrebu. Cytunodd pob un o'r ymatebwyr yn gryf eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod staff yn egluro gweithdrefnau'n glir drwy gydol apwyntiadau, a'u bod yn gwrandao ar eu pryderon, yn ateb cwestiynau ac yn egluro materion iechyd y geg mewn ffordd y gallent ei deall. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr hefyd eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag roeddent wedi dymuno.

Roedd yr adborth am amgylchedd y practis yr un mor gadarnhaol. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn ystyried bod y safle yn hygyrch, a dywedodd pob ymatebydd fod y practis yn lân iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau priodol yn cael eu dilyn drwy'r practis cyfan.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r gofal a roddwyd bob amser wedi bod o safon uchel."

"Maen nhw bob amser yn ceisio helpu pan fyddwch mewn poen gyda'r ddannoedd ac yn trafod yr holl opsiynau yn ystod apwyntiadau arferol. Staff cyfeillgar iawn."

"Mae'r staff yn anhygoel yma. Yn hollol fodlon ar y gofal cyffredinol a gaf yma."

"Mae'r practis yn rhan allweddol o'r Rhws, mae'r holl staff yn ofalgar ac yn gyfeillgar."

"Mae'r staff yn hynod o gymwynasgar a gwybodus o'r derbynnydd i'r deintydd, ac maen nhw bob amser yn barod i ateb cwestiynau. Maen nhw'n eich helpu i ymlacio mewn amgylchedd graenus drwy gydol eich triniaeth."

"Alla i ddim argymell y practis deintyddol hwn ddigon. Mae'n cael ei redeg yn eithriadol o dda, ac mae pob aelod o'r tîm yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn broffesiynol."

"Mae'r tîm cyfan yn eithriadol, ac maen nhw bob amser yn mynd y filltir ychwanegol i wneud pob ymweliad yn brofiad cadarnhaol."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn cefnogi cleifion i gynnal iechyd y geg da drwy ddarparu amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd. Roedd taflenni a phosteri ynglŷn â phynciau fel iechyd y geg a rhoi'r gorau i smygu wedi'u harddangos yn y derbynfydd, ac roedd gwybodaeth addysgol hefyd yn cael ei rhannu drwy sgriniau teledu o fewn y practis a thrwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y practis. Cymerodd y practis ran ym Mis Cenedlaethol Gwenu i godi ymwybyddiaeth o iechyd y geg ymhellach. Roedd gwybodaeth gyfredol ar gael i'r cleifion drwy wefan y practis, a oedd yn cynnwys y Datganiad o Ddiben a Thaflen Wybodaeth i Gleifion. Roedd gwybodaeth am ffioedd triniaeth wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa, ym mhob deintyddfa, ar wefan y practis, ac yng nghofnodion y cleifion. Roedd gwybodaeth am y tîm deintyddol, gan gynnwys rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael ei harddangos ar hysbysfwrdd. Roedd oriau agor a manylion cyswllt brys y tu allan i oriau hefyd wedi'u harddangos yn glir ac yn hygyrch i gleifion.

Nododd y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael cyngor a gwybodaeth ôl-ofal briodol. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ar gynnal iechyd y geg da. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd eu bod wedi cael arweiniad clir ynghylch beth i'w wneud a gyda phwy y dylid cysylltu yn achos haint neu argyfwng, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch sut y byddai pryderon neu gwynion yn cael eu rheoli yn dilyn triniaeth.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd gan y practis fesurau ar waith i ddiogelu urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion. Roedd y staff yn llofnodi datganiadau cyfrinachedd fel rhan o'u contractau cyflogaeth, gan ddangos eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd cleifion. Gellid ymdrin â galwadau ffôn i ffwrdd o'r dderbynfa neu mewn deintyddfeydd unigol pan fo angen. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefelau priodol o breifatrwydd ar y cyfan, ac roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau. Roedd preifatrwydd y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn cael ei gynnal ymhellach drwy ddefnyddio bleindiau a sgriniau preifatrwydd. Roedd naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael ledled y practis, gan gynnwys mewn deintyddfeydd, ffeiliau gwybodaeth cleifion ac ardaloedd aros, a oedd yn helpu i hyrwyddo safonau proffesiynol a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd yr adborth ynghylch ansawdd y gofal a oedd yn cael ei ddarparu yn gyson gadarnhaol. Cytunodd pob un o'r ymatebwyr yn gryf eu bod wedi cael digon o

wybodaeth am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, a risgiau a manteision triniaethau a bod eu hanes meddygol wedi'i gadarnhau cyn y driniaeth. Nododd bron pob ymatebydd hefyd fod costau triniaeth wedi cael eu hesbonio'n glir cyn i'r driniaeth ddechrau.

Amserol

Gofal amserol

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gofal a thriniaethau mewn modd amserol. Roedd cleifion yn cael eu hysbysu am unrhyw oedi gan dîm y dderbynfa, a oedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan glinigwyr drwy system reoli'r practis. Roedd y practis yn cynnig yr opsiwn o drefnu apwyntiadau ar-lein i gleifion preifat ac roedd yn treialu'r opsiwn i drefnu apwyntiadau ar-lein ar gyfer archwiliadau ac ymgynghoriadau'r GIG. Gallai cleifion hefyd drefnu apwyntiadau dros y ffôn neu drwy fynd i'r practis eu hunain. Roedd system frysbenno wedi'i chyflwyno'n ddiweddar i asesu anghenion deintyddol brys, lle roedd cleifion brys yn cael blaenoriaeth ac yn cael cynnig apwyntiadau ar yr un diwrnod lle bo angen. Nododd y practis fod amseroedd aros rhwng apwyntiadau triniaeth fel arfer rhwng pythefnos a thair wythnos, a bod triniaethau yn cael eu cwblhau o fewn yr amserleni gofynnol. Roedd trefniadau apwyntiadau hyblyg ar gael, gan gynnwys apwyntiadau ar ôl ysgol i blant, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion cleifion.

Nododd y cleifion a gwblhaodd holiadur fod mynediad da at apwyntiadau, a dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe bai angen gofal deintyddol brys arnynt. Dywedodd un claf:

“Mae'r gwasanaeth trefnu apwyntiad yn gweithio'n wych, ac mae'r practis cyfan wedi'i drefnu mor effeithlon.”

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad i ddiwallu anghenion cyfathrebu ei gleifion. Roedd gwasanaeth dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar gael, gydag amrywiaeth o wybodaeth, polisïau, codau QR, arwyddion, posterï a deunyddiau gwybodaeth i gleifion yn ddwyieithog yn cael eu darparu drwy'r practis cyfan. Nododd y staff eu bod wedi cael digon o gymorth gan y bwrdd iechyd i weithredu'r Cynnig Rhyngweithiol a'u bod wedi cael mynediad at hyfforddiant yn Gymraeg. Roedd y staff yn cael eu hysbysu am eu cyfrifoldebau o ran y Cynnig Rhagweithiol, ac roedd aelodau o'r tîm a oedd yn siarad Cymraeg yn cael eu hannog i wisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' i nodi eu sgiliau iaith. Ar adeg yr arolygiad, roedd pedwar aelod o'r staff yn siarad Cymraeg, gan gynnwys dau ddeintydd a dwy nyrs ddeintyddol, ac roedd proffiliau staff ar system rheoli'r practis yn

nodi siaradwyr Cymraeg er mwyn helpu staff y dderbynfa i baru cleifion â'u dewis iaith lle bo modd. Roedd gwybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen ar gais, ac roedd hysbysiadau yn yr ardal aros yn hysbysu cleifion am y gwasanaeth hwn. O ran cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, roedd gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gael i'r practis. Roedd y staff yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith er mwyn cefnogi gofal effeithiol. Roedd y practis hefyd yn cefnogi cleifion nad oedd ganddynt fynediad at dechnoleg ddigidol drwy ddarparu gwybodaeth argraffedig, cymorth i gwblhau holiaduron meddygol, llythyrau apwyntiad a chyswllt dros y ffôn. Ystyriwyd bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol wrth recriwtio staff a chynllunio'r gweithlu.

Dangosodd cofnodion cleifion a welwyd yn ystod yr arolygiad dystiolaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau lle roedd anghenion cyfathrebu unigol wedi'u cofnodi, gan gynnwys dogfennaeth yn nodi bod claf yn unigolyn dieiriau. Roedd y practis hefyd wedi rhoi trefniadau ar waith i nodi cleifion sy'n siarad Cymraeg drwy nodyn electronig ar gofnodion cleifion. Esboniodd y staff eu bod yn holi am ddewis iaith claf pan oedd cleifion yn defnyddio gwasanaethau ar-lein y practis a bod rhagenwau a ffefrir gan gleifion yn cael eu trafod ar lafar yn y dderbynfa. Dywedodd y practis y byddai dewis iaith a rhagenwau a ffefrir yn cael eu hymgorffori yng nghofnodion cleifion a phrosesau hanes meddygol yn y dyfodol i gryfhau ymhellach y broses o gofnodi dewisiadau unigol.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a hyfforddiant rheolaidd i'r staff. Disgrifiodd y staff ddiwylliant lle roedd unigolion yn cael eu trin yn deg ac â pharch. Roedd y practis hefyd yn cynnal archwiliadau anabledd i nodi ac ymdrin ag unrhyw rwystrau i gael gafael ar wasanaethau. Roedd y practis wedi cymryd camau i gefnogi hygyrchedd i gleifion ag anghenion symudedd, gan gynnwys darparu deintyddfa ar y llawr gwaelod a thoiled i gleifion ar y llawr gwaelod, canllawiau ychwanegol ar y grisiau a darparu gwybodaeth mewn print bras lle bo angen. Roedd cyfleusterau newid babanod ar gael hefyd.

Roedd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau y gallai cleifion gael gafael ar wasanaethau ar sail gyfartal. Dywedodd un claf:

“Deintyddfeydd ar gael ar y llawr gwaelod – yn ddefnyddiol iawn.”

Roedd y practis hefyd yn dangos ymrwymiad i gynnal hawliau cleifion trawsryweddol drwy ganiatáu i unigolion nodi'r enw a'r rhagenwau a ffefrir ganddynt, a gofnodwyd ar y system rheoli cleifion er mwyn sicrhau bod y staff yn cyfarch cleifion yn briodol ac yn barchus.

Nododd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur eu bod wedi gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Ni nododd unrhyw ymatebwyr eu bod wedi profi

gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, nac unrhyw nodwedd warchodedig arall.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd amgylchedd y practis mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd y safle yn lân, yn daclus ac yn fodern, ac roedd wedi'i ailaddurno'n ddiweddar. Ni nodwyd unrhyw bryderon ynghylch cyflwr yr adeilad. Roedd y cynllun yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roedd pedair deintyddfa wedi'u lleoli ar ddau lawr ac roedd ardal aros fawr â digon o seddau i gleifion. Roedd yr amodau amgylcheddol cyffredinol, gan gynnwys goleuadau, gwresogi, awyru, glendid ac arwyddion, yn foddhaol. Roedd yr ystafell aros o faint priodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd, ac roedd systemau cyfathrebu effeithiol ar waith, gan gynnwys ffonau ym mhob deintyddfa, nifer o ffonau yn y dderbynfa a system negeseuon fewnol. Roedd cyfleusterau storio a newid ar gael i'r staff, ac roedd y toiledau i gleifion yn lân, mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol.

Roedd gan y practis drefniadau effeithiol ar waith i gynnal amgylchedd diogel. Ni nodwyd unrhyw bryderon amgylcheddol yn ystod yr arolygiad, ac roedd asesiad risg iechyd a diogelwch cynhwysfawr ar gael. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y safle yn dal i fod yn addas at y diben, bod risgiau yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol, a bod iechyd a diogelwch cleifion a staff yn cael eu diogelu. Roedd cynllun parhad busnes hefyd ar waith er mwyn helpu i redeg y practis yn ddiogel yn ystod digwyddiadau annisgwyl. Roedd gan y practis dystysgrifau cyfredol ar gyfer diogelwch nwy, profion offer cludadwy ac archwilio gosodiadau trydanol. Roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu harddangos, ac roedd gwybodaeth am iechyd a diogelwch ar gael i'r staff.

Roedd y practis wedi rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith. Roedd asesiad risg tân a chynllun gweithredu cyfredol ar waith, ac roedd profion yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfarpar canfod tân. Roedd arwyddion clir ar gyfer allanfeydd tân ac roeddent yn darparu dulliau addas o ddianc mewn argyfwng. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân, roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd y trefniadau diogelwch tân yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r safle ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu.

Roedd cyfarwyddiadau ynglŷn â gadael yr adeilad oherwydd tân, arwyddion allanfa dân, ac arwyddion dim smygu na fepio wedi'u harddangos yn glir.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i gynnal safonau uchel o ran atal a rheoli heintiau. Roedd polisi rheoli heintiau a gweithdrefnau ategol ar gael, ac roedd amserlen lanhau effeithiol ar waith. Roedd y cyfleusterau hylendid dwylo yn addas ym mhob rhan o'r practis, ac roedd sinciau golchi dwylo pwrpasol ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y ddwy ystafell ddihalogi. Roedd gan y practis ddwy ystafell ddihalogi ar wahân, a oedd yn ddigonol ac yn ymarferol ar gyfer nifer y deintyddfeydd roeddent yn eu gwasanaethau. Yn ystod trafodaethau, dywedodd y practis y gallai unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol roi cyfle i ddatblygu cyfleuster dihalogi canolog, mwy o faint i gefnogi arfer gorau ymhellach.

Roedd yr amgylchedd wedi'i gynnal mewn cyflwr da ac yn cefnogi prosesau glanhau a rheoli heintiau effeithiol. Nododd y cleifion:

“Mae'r practis bob amser yn lân ac yn daclus.”

“Wedi gweld mannau cymunedol ac ystafelloedd trin yn cael eu glanhau wrth aros am driniaethau. Mae staff yn yr ystafelloedd trin bob amser yn gwisgo ffedogau, masgiau a menig ac yn glanhau cadeiriau rhwng cleifion.”

Roedd arweinydd dynodedig ar reoli heintiau wedi'i benodi, ac roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff, gan gynnwys cymorth ynglŷn â brechiadau ac anafiadau a achoswyd gan offer miniog.

Roedd y practis wedi rhoi mesurau priodol ar waith i leihau'r risg o anafiadau a achoswyd gan offer miniog. Roedd chwistrellau wedi'u peiriannu at ddibenion diogelwch yn cael eu defnyddio drwy'r practis cyfan, ac roedd y staff yn dangos ymwybyddiaeth o'r protocol anafiadau a achoswyd gan offer miniog. Roedd systemau ar waith i sicrhau bod offerynnau a chyfarpar aml dro yn cael eu glanhau, eu dihalogi a'u storio'n briodol. Cadarnhaodd cofnodion fod profion cyfnodol a gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar gyfarpar dihalogi yn cael eu cwblhau yn unol â'r canllawiau perthnasol. Roedd gwiriadau dyddiol o'r deintyddfeydd a'r cyfarpar yn cael eu cynnal a'u dogfennu. Arsylwyd ar brosesau glanhau cyn sterileiddio a gwelwyd eu bod yn briodol, a bod offerynnau yn cael eu harchwilio gan ddefnyddio chwyddiad goleuedig cyn sterileiddio. Yn ystod yr arolygiad, cynghorwyd y staff i ystyried cofnodi gwiriadau tymheredd dŵr ar gyfer pob defnydd yn hytrach nag unwaith y dydd er mwyn cryfhau'r trefniadau presennol.

Edrychwyd ar gofnodion awtoclaf, dogfennaeth cynnal a chadw a thystysgrifau archwilio a gwelwyd eu bod yn foddhaol. Roedd offerynnau yn cael eu cludo'n ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ardaloedd dihalogi gan ddefnyddio cynwysyddion cloadwy wedi'u labelu'n glir ar gyfer eitemau glân a halogedig. Roedd offerynnau yn cael eu

prosesu ar wahân i weithgareddau clinigol eraill. Roedd gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd ar gyfer cyfarpar dihalogi yn cael eu cwblhau a'u dogfennu, ac roedd olion deintyddol yn cael eu diheintio'n briodol mewn deintyddfeydd. Roedd archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ac wedi dangos cymhwysedd mewn gweithdrefnau dihalogi.

Roedd trefniadau priodol hefyd ar waith ar gyfer ymdrin â gwastraff a gynhyrchwyd gan y practis a'i waredu. Roedd y cofnodion yn cadarnhau bod contractau ar waith i waredu gwastraff clinigol, amalgam, dannedd wedi'u tynnu, cynhyrchion gypswm, offer miniog, gwastraff fferyllol a gwastraff domestig. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel mewn uned storio allanol dan glo nad oedd yn hygyrch i'r cyhoedd. Roedd trefniadau priodol ar waith i storio a rheoli sylweddau sy'n ddarostyngedig i reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Nid oedd unrhyw gyfleusterau golchi dillad yn cael eu darparu ar y safle.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis drefniadau cadarn ar waith i reoli meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar gael, wedi'i ategu gan weithdrefnau clir ar gyfer archebu, cofnodi, trafod, storio, gweinyddu, dosbarthu a gwaredu meddyginiaethau. Roedd prosesau archebu meddyginiaethau yn cynnwys goruchwyliaeth a gwiriadau priodol gan uwch-aelodau o staff. Roedd cofnodion o feddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cynnal, ac roedd gwybodaeth a chynghor yn cael eu rhoi i gleifion am feddyginiaethau a oedd yn cael eu presgripsiynu lle bo'n briodol.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau a phadiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd meddyginiaethau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn ardal ddynodedig, ac roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn storfa dan glo. Roedd y staff yn ymwybodol sut i roi gwybod am bryderon ynglŷn ag adweithiau niweidiol i gyffuriau drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn, ac roedd gwybodaeth ategol wedi'i harddangos mewn ardaloedd i'r staff. Roedd arwyddion wedi'u harddangos drwy'r practis cyfan yn atgoffa cleifion i hysbysu staff am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, ac roedd y staff hefyd yn gofyn i gleifion ddiweddar'u wybodaeth hon cyn apwyntiadau.

Roedd trefniadau priodol ar waith i reoli a gwaredu cyffuriau a reolir, gan gynnwys defnyddio pecyn annatureiddio. Roedd meddyginiaethau roedd angen eu cadw'n oer yn cael eu storio mewn oergell feddyginiaethau bwrpasol, ac roedd tymereddau yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n ddyddiol. Roedd ail oergell ar gael fel oergell wrth gefn rhag ofn bod cyfarpar yn methu neu fod tymereddau yn disgyn y tu allan i'r ystod a argymhellir.

Roedd systemau effeithiol ar waith i reoli argyfyngau meddygol. Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar gael, a oedd yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol cyfredol ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff yn dangos ymwybyddiaeth o weithdrefnau brys ac roeddent wedi cael hyfforddiant priodol mewn adfywio

cardiopwlmonaidd, adfywio brys a rheoli anaffylaxis. Gwiriwyd cyffuriau a chyfarpar brys a gwelwyd eu bod yn cydymffurfio ag argymhellion cenedlaethol. Roedd yr holl feddyginiaethau a archwiliwyd o fewn eu dyddiadau dod i ben, ac roedd system wirio gadarn a oedd yn cynnwys dau aelod o staff yn cael ei defnyddio i fonitro stoc a dyddiadau dod i ben.

Roedd gan y practis ystod briodol o gyfarpar adfywio brys, gan gynnwys ocsigen, diffibriliwr allanol awtomataidd, cyfarpar rheoli'r llwybr anadlu a meddyginiaethau brys addas ar gyfer oedolion a phlant. Roedd y cyfarpar a'r meddyginiaethau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u cynnal a'u cadw'n briodol. Darparwyd tystiolaeth i ddangos bod silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn unol â'r gofynion, a bod trefniadau i roi gwybod am ddigwyddiadau ar waith pe bai unrhyw broblemau'n codi. Roedd gan y practis drefniadau cymorth cyntaf addas hefyd, gan gynnwys swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig a bocs cymorth cyntaf wedi'i stocio.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y practis drefniadau diogelu priodol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ar gael ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt lleol i roi gwybod am bryderon. Roedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gwybodaeth ar gael i'r staff i'w helpu i fod yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf ar amddiffyn plant ac oedolion. Yn ystod trafodaethau, dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o gyfrifoldebau diogelu ac roeddent yn gwybod gyda phwy y dylid cysylltu os oedd ganddynt bryderon. Roedd siartiau llif diogelu clir ar gael ym mhob deintyddfa, a oedd yn galluogi'r staff i gael gafael ar wybodaeth allweddol yn gyflym. Gallai'r staff ddisgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd i nodi pryderon diogelu neu honiadau o gam-drin, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt. Roedd y practis hefyd yn darparu dulliau i'r staff godi pryderon yn ddienw, gan gynnwys defnyddio cod QR a oedd ar gael yn ystafell y staff. Cadarnhaodd y cofnodion fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a oedd yn briodol i'w rôl.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cyfarpar clinigol yn ddiogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn addas at ei ddiben bwriadedig. Gwelwyd bod y cyfarpar drwy'r practis cyfan o safon dda ac mewn cyflwr da. Roedd y staff yn cael hyfforddiant fel rhan o'u sesiwn sefydlu a'u datblygiad proffesiynol parhaus, ac roedd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei roi pan oedd cyfarpar newydd yn cael ei gyflwyno. Roedd dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu trin, eu glanhau a'u dihalogi'n briodol, ac roedd systemau ar waith i ymateb yn brydlon i unrhyw gyfarpar neu systemau diffygiol. Cadarnhaodd y cofnodion fod y cywasgydd aer wedi'i gynnwys mewn rhaglen cynnal a chadw a'i fod wedi cael ei wasanaethu yn unol â'r gofynion.

Roedd gan y practis drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r defnydd diogel o ymbelydredd ïoneiddio ac roedd yn dangos ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau

Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R). Roedd gweithdrefnau, polisïau a phrotocolau priodol gan y cyflogwr ar gael ac roeddent yn cwmpasu pob agwedd allweddol ar ddiogelu rhag ymbelydredd, gan gynnwys adnabod cleifion, hawliau deiliaid dyletswyddau, sicrhau ansawdd, asesu dosau, gwerthusiad clinigol, lefelau cyfeirio diagnostig a threfniadau ar gyfer rheoli cysylltiadau anfwriadol. Roedd gwybodaeth am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â phelydrau-X deintyddol ar gael ym mhob deintyddfa, a chadarnhaodd y staff fod cleifion yn cael gwybodaeth cyn unrhyw gysylltiad.

Roedd cymorth priodol ar gael gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol, ac roedd trefniadau diogelu rhag ymbelydredd, gan gynnwys asesiadau risg, rheolau lleol a chynlluniau wrth gefn, wedi cael eu hadolygu a'u cynnal. Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau o dan IR(ME)R ac roeddent wedi cael hyfforddiant priodol. Roedd gan ddeiliaid dyletswyddau hawliau unigol, ac roedd cofnodion yn cadarnhau bod y staff a oedd yn ymgymryd â radiograffeg wedi cael eu hyfforddi'n briodol a'u bod yn gymwys. Roedd canfyddiadau damweiniol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion a'u huwchgwyfeirio drwy weithdrefnau sefydledig gan y practis lle bo angen.

Cadarnhaodd y cofnodion a adolygwyd yn ystod yr arolygiad fod cysylltiadau pelydr-X wedi'u cyfiawnhau, wedi'u hawdurdodi ac wedi'u gwerthuso'n glinigol. Roedd gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys gosodiadau cysylltiad ansafonol, yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Roedd rhaglen sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer cyfarpar, gweithdrefnau ac ansawdd delweddau radiograffeg, ac roedd y practis wedi cwblhau Adnodd Gwella Ansawdd AaGIC ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio ym mis Mehefin 2026. Roedd copïau wrth gefn o radiograffau digidol yn cael eu gwneud yn ddiogel drwy system rheoli cleifion gwmwl y practis.

Roedd y practis yn cynnal stocrestr gynhwysfawr o gyfarpar radiograffeg ac yn cadw dogfennaeth gyfredol yn ymwneud â phrofi cyfarpar, cynnal a chadw, sicrhau ansawdd a diogelu rhag ymbelydredd. Roedd cofrestriad â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, asesiadau risg ymbelydredd, adroddiadau Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd, rheolau lleol a chofnodion o brofion ar gyfarpar pelydr-X i gyd ar gael ac yn gyfredol. Roedd y staff yn gallu cael gafeael ar reolau a chanllawiau lleol pan oedd angen gwneud hynny, ac roedd pob switsh ynysu pelydr-X wedi'i nodi a'i labelu'n glir. At ei gilydd, roedd y trefniadau ar waith yn cefnogi'r defnydd diogel ac effeithiol o gyfarpar clinigol a radiograffig a defnydd a oedd yn cydymffurfio â'r rheolau.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesu, eu diagnosisio a'u trin mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod canllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Roedd y staff yn gweithio yn unol â pholisïau a

gweithdrefnau sefydledig er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal a oedd yn ddiogel, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn unol â safonau proffesiynol cyfredol.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol er mwyn helpu i atal achosion o dynnu dant o'r man anghywir a chamgymeriadau eraill y gellid eu hosgoi yn ystod triniaethau mewnwithiol. Roedd hyn yn cefnogi dull cyson o ymdrin â diogelwch cleifion a lleihau risg.

Dangosodd y staff hefyd eu bod yn ceisio cyngor a chymorth proffesiynol perthnasol pan oedd angen hynny. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol a bod modd rheoli achosion neu bryderon cymhleth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Cofnodion cleifion

Roedd systemau priodol ar waith yn y practis i gefnogi proses effeithiol o gadw a rheoli cofnodion cofnodion. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu rheoli'n electronig gan ddefnyddio system rheoli cleifion gwmwl, a oedd yn ei gwneud yn bosibl i gofnodion gael eu storio'n ddiogel a'u cyrchu yn ôl y gofyn. Roedd polisïau ynglŷn â rheoli cofnodion, cydsyniad, galluedd a llywodraethu gwybodaeth ar gael i helpu i reoli gwybodaeth cleifion yn ddiogel a chynnal hawliau cleifion.

Dangosodd y practis ei fod yn cydymffurfio â gofynion diogelu data ac roedd ganddo drefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd cofnodion papur hanesyddol, gan gynnwys radiograffau a ffotograffau lle bo'n gymwys, yn cael eu storio'n ddiogel mewn cyfleuster cofnodion canolog a weithredir gan sefydliad y darparwr. Roedd cofnodion electronig yn cael eu diogelu drwy systemau wrth gefn cwmwl, ac roedd modelau ac argraffiadau digidol yn cael eu creu gan ddefnyddio technoleg sganio, a oedd yn dileu'r angen i storio modelau ffisegol ar y safle.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu monitro'n briodol a bod ymholiadau dilynol yn cael eu gwneud. Roedd atgyfeiriadau yn cael eu cyflwyno drwy systemau atgyfeirio electronig a'u cofnodi o fewn cofnodion atgyfeirio a oedd yn cael eu cynnal ym mhob deintyddfa. Roedd y staff yn monitro canlyniadau atgyfeiriadau a gohebiaeth ddilynol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol o hynny ymlaen. Roedd y practis hefyd yn gallu dangos prosesau ar gyfer olrhain atgyfeiriadau o ganlyniad i ganser y geg a amheuir, ac roedd yn cofnodi ac yn monitro atgyfeiriadau ac yn gwneud ymholiadau dilynol er mwyn sicrhau bod cleifion wedi cael eu gweld gan wasanaethau gofal eilaidd lle bo'n briodol.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel drwy'r practis cyfan, ac roedd rhai clinigwyr yn cadw cofnodion yn rhagorol. Roedd y practis yn defnyddio Dentally, system rheoli cleifion gwmwl, ochr yn ochr ag adnoddau digidol gan gynnwys KIROKU ac adnodd radiograffeg â chymorth deallusrwydd artifisial i helpu i gadw cofnodion a gwneud penderfyniadau clinigol. Gellid cael mynediad diogel at gofnodion cleifion ym

mhob un o'r deg practis o fewn grŵp y darparwr, a oedd yn hwyluso parhad gofal, atgyfeiriadau mewnol a chynnig apwyntiadau brys ac mewn argyfwng pan oedd angen.

Roedd gan y practis systemau ar waith i sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn unol â gofynion diogelu data. Roedd polisïau ynglŷn â rheoli cofnodion, cydsyniad a galluedd meddyliol ar gael ac roeddent yn helpu'r staff i gynnal hawliau cleifion. Roedd cofnodion hanesyddol yn cael eu storio'n ddiogel drwy drefniadau rheoli cofnodion canolog y darparwr, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu diogelu drwy system storio a system wrth gefn gwmwl.

Roedd systemau cadarn ar waith ar gyfer rheoli atgyfeiriadau a gofal dilynol. Roedd atgyfeiriadau yn cael eu cyflwyno'n electronig, eu cofnodi a'u monitro er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Gallai cleifion a atgyfeiriwyd drwy lwybrau mewnol y darparwr gael gafael ar wasanaethau yn y grŵp ehangach o bractisau, gan gefnogi mynediad amserol at ofal. Roedd y practis hefyd yn gallu dangos prosesau effeithiol ar gyfer monitro atgyfeiriadau ar gyfer canser y geg a amheuir a gwneud ymholiadau dilynol yn eu cylch.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y practis wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithlon a bod safonau uchel o ofal cleifion yn cael eu cynnal ar yr un pryd. Roedd y tîm clinigol yn cynnwys hylenydd deintyddol a therapydd deintyddol, a oedd yn helpu i reoli llwybrau triniaeth yn effeithiol ac i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gofal gan yr aelod mwyaf priodol o'r tîm deintyddol. Roedd hyn yn helpu i wneud y defnydd gorau o adnoddau clinigol ac yn cefnogi gofal amserol i gleifion.

Roedd trefniadau ar waith i gefnogi cleifion roedd angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt. Y tu allan i oriau agor arferol, roedd gwasanaeth peiriant ateb y practis yn cyfeirio cleifion at GIG 111 neu'r gwasanaeth deintyddol brys lleol, gan sicrhau y gallent gael cyngor a gofal brys pan oedd angen hynny.

Roedd y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu ac roeddent yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd systemau ar waith hefyd i reoli apwyntiadau a ganslwyd a chynnig yr apwyntiadau hynny a oedd bellach ar gael i gleifion eraill, gan helpu i sicrhau bod cymaint o apwyntiadau â phosibl ar gael a gwella mynediad at wasanaethau.

Roedd sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac roedd gan y practis nifer ddigonol o glinigwyr i ddiwallu anghenion y boblogaeth o gleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Cafwyd pum holiadur wedi'u cwblhau gan y staff. Ar y cyfan, roedd adborth y staff yn gadarnhaol iawn ac yn dangos bod cyflogeion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, eu hyfforddi'n briodol a'u bod yn gallu darparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r rôl, ac roeddent i gyd wedi cael gwerthusiad neu adolygiad datblygu o fewn y 12 mis blaenorol. Nododd y staff fod cyfleusterau, cyfapar a systemau technoleg gwybodaeth addas ar gael iddynt a oedd yn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Dangosodd yr adborth ymrwymiad cryf i ofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Cytunodd pob un o'r ymatebwyr yn gryf fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal, bod cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal, a'u bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu. Roedd pob aelod o'r staff hefyd yn cytuno'n gryf mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y practis ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal sy'n cael ei ddarparu pe bai angen gofal deintyddol ar eu ffrindiau neu berthnasau yn y practis.

Nododd y staff brofiadau cadarnhaol o weithio yn y practis. Cytunodd pob ymatebydd, neu cytunodd yn gryf, fod digon o staff a chymysgedd sgiliau priodol i'w galluogi i

gyflawni eu rolau'n effeithiol. Roedd y staff hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn perthynas â'u hiechyd a'u llesiant, gyda phob ymatebydd yn nodi nad oedd ei swydd yn niweidiol i'w iechyd a bod y practis wedi cymryd camau cadarnhaol i gefnogi llesiant staff a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Roedd yr ymatebion yn dangos diwylliant o ddiogelwch cadarnhaol. Roedd pob aelod o'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i godi pryderon pan aeth pethau o chwith, ac yn nodi bod y practis yn annog ei staff i roi gwybod am ddigwyddiadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a chamgymeriadau. Cadarnhaodd y staff hefyd fod adborth a gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu rhannu â'r tîm.

Roedd canlyniadau'r arolwg hefyd yn adlewyrchu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol yn y gweithle. Ni nododd unrhyw ymatebwyr eu bod wedi profi gwahaniaethu o fewn y 12 mis blaenorol. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod staff yn cael mynediad teg o ran cyfleoedd yn y gweithle a bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd y sylwadau dienw canlynol yn dangos y diwylliant cadarnhaol yn y practis:

“Mae'r practis yn drefnus iawn, mae apwyntiadau yn rhedeg yn effeithlon ac rydym yn teimlo bod y practis yn gwrandio arnom a'n bod yn cael ein trin â pharch.”

“Gwaith tîm gwyh sy'n ei gwneud yn bosibl i'r gofal gorau gael ei roi i gleifion, yn ystyriol iawn o gleifion gan sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r driniaeth sydd ei hangen neu unrhyw bryderon a allai godi yn ystod y driniaeth.”

“Mae gennym ethos gwaith tîm gwyh a gallwn ddefnyddio pob aelod am ei gryfderau unigol. Mae lle i bawb yn ein practis ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn adborth cleifion yn rheolaidd.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd gan y practis strwythur rheoli clir ar waith ac roedd y staff yn dangos dealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd Datganiad o Ddiben ar gael ac roedd wedi cael ei adolygu o fewn y 12 mis blaenorol. Roedd y practis wedi cwblhau asesiad Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn ddiweddar ym mis Mehefin 2026 fel rhan o'i ymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau a gwella ansawdd.

Dangosodd y dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal bob mis a bod yr holl staff yn eu mynychu. Roedd cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu rhannu'n electronig drwy god QR a oedd yn cael ei ddosbarthu drwy grŵp cyfathrebu staff y practis ac a oedd wedi'i arddangos ar hysbysfwrdd yn ystafell y staff. Roedd yn ofynnol i'r staff ddarllen y cofnodion a chadarnhau eu bod yn eu deall, gan sicrhau bod y rhai

nad oeddent yn gallu mynychu cyfarfodydd yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau, newidiadau neu gamau gweithredu a oedd wedi codi.

Roedd trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol ar waith ac roeddent yn briodol ar gyfer maint a chymhlethdod y gwasanaeth. Roedd arweinwyr yn dangos y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad yr oedd eu hangen i gyflawni eu rolau, ac roedd systemau ar waith i nodi, cofnodi a rheoli risgiau. Roedd hysbysiadau a chanllawiau diogelwch oddi wrth sefydliadau fel yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a Llywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu gan uwch-aelodau o'r staff a'u lledaenu i'r tîm ehangach drwy sianeli cyfathrebu sefydledig.

Roedd y practis yn cynnal system effeithiol ar gyfer rheoli polisïau a gweithdrefnau drwy system rheoli dogfennau electronig. Gallai staff gael gafael ar yr holl bolisïau a gweithdrefnau ac roedd yn ofynnol iddynt eu hadolygu fel rhan o'u cyfrifoldebau. Roedd polisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac roedd y system yn hwyluso adolygiadau blynyddol a rhoi diweddariadau i'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd y practis wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod nifer priodol o staff â hyfforddiant a chymwysterau addas ar gael i ddiwallu anghenion cleifion. Roedd rotâu staffio yn cael eu cynllunio i gynnwys staff cyflenwi ychwanegol er mwyn helpu i reoli gwyliau blynyddol ac absenoldeb oherwydd salwch. Roedd y practis hefyd yn cael ei gefnogi gan rwydwaith ehangach o ddeg practis, a oedd yn rhoi mynediad at staff ychwanegol yn ôl yr angen. Nid oedd y practis yn cyflogi staff dros dro na staff asiantaeth, a oedd yn helpu i gynnal parhad gofal i gleifion.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn bodloni eu cofrestrriad proffesiynol a'u gofynion hyfforddiant. Roedd gwybodaeth ynglŷn â datblygiad proffesiynol parhaus a chofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei lledaenu drwy systemau rheoli electronig y practis a sianeli cyfathrebu'r staff. Roedd y practis yn rhoi cymorth i'r staff o ran ffioedd cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a phrosesau ad-dalu.

Disgrifiodd y staff ddiwylliant gwaith cadarnhaol a chefnogol, gydag ymagwedd drws agored at reoli a chyfleoedd i drafod pryderon drwy gyfarfodydd tîm a systemau cyfathrebu sefydledig. Roedd cymorth ychwanegol ar gael drwy lwyfan adnoddau dynol a rhaglen cymorth i gyflogeion y sefydliad. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael i'r staff drwy'r system rheoli dogfennau electronig ac roedd hefyd wedi'i arddangos yn ystafell y staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi pryderon os oedd angen a'u bod yn gallu gwneud hynny.

Roedd trefniadau ar waith i gefnogi prosesau datblygu, goruchwyllo a hyfforddi'r staff. Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal, ac roedd goruchwyliaeth glinigol a

mentora ar gael lle bo'n briodol. Roedd y staff yn gallu ymgymryd â hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r rôl drwy system ddysgu electronig y sefydliad, gyda threfniadau ar wahân ar waith ar gyfer hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf. Roedd rhaglen sefydlu strwythuredig ar waith ar gyfer pob aelod newydd o'r staff, a oedd yn cynnwys cwblhau rhestr wirio sefydlu, amser sefydlu gwarchodedig a chyfnod prawf gydag adolygiadau rheolaidd. Roedd problemau perfformiad yn cael eu monitro drwy weithgarwch archwilio a phrosesau llywodraethu eraill ac roedd y practis yn mynd i'r afael â nhw pan gafodd eu nodi.

Roedd y practis wedi rhoi gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith i sicrhau bod y staff yn bodloni gofynion addasrwydd i weithio. Roedd y prosesau recriwtio yn cynnwys hysbysebu swyddi gwag, llunio rhestr fer, cyfweiliadau, gwiriadau cyn cyflogi, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chael geirdaon cyn i'r gyflogaeth ddechrau.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn mynd ati'n weithredol i ofyn am adborth gan gleifion ac ymateb iddo er mwyn cefnogi gwelliant parhaus. Gallai'r cleifion roi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys adolygiadau ar-lein y gellir eu cyrchu drwy godau QR, holiaduron boddhad cleifion a blwch awgrymiadau wedi'i leoli yn ardal y dderbynfa. Roedd gwybodaeth yn dangos sut roedd y practis wedi ymateb i adborth yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd aros drwy hysbysiadau 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' ac 'Yr hyn a wnaethom yn iawn'. Roedd adborth cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy system adborth electronig. Roedd holiaduron yn cael eu hanfon at gleifion yn dilyn apwyntiadau ac roedd ymatebion yn cael eu hadolygu gan dîm rheoli'r practis. Roedd y practis yn gallu dangos bod newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i adborth cleifion. Er enghraifft, ar ôl sylwadau yn gofyn am wybodaeth gliriach am gostau triniaethau, cyflwynodd y practis broses lle byddai cynlluniau triniaeth a manylion ffioedd yn cael eu hadolygu a'u llofnodi gan gleifion cyn gadael y practis.

Roedd y practis wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i reoli cwynion yn effeithiol. Roedd gweithdrefn gwyno ar gael yn rhwydd i gleifion ac roedd yn hygyrch yn y deintyddfeydd ac mewn ffolderi gwybodaeth i gleifion a oedd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd aros. Roedd y weithdrefn yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn, amseroedd ymateb disgwylidig, ffynonellau o gymorth ac eiriolaeth, a'r broses i'w dilyn os na ellid datrys y gŵyn yn lleol. Roedd cyfrifoldeb am reoli cwynion wedi'i neilltuo i unigolyn a enwyd, ac roedd trefniadau cyflenwi priodol ar waith yn ystod cyfnodau o absenoldeb. Roedd cofnodion o gwynion yn cael eu cynnal, a gellid hefyd ddogfennu a rheoli pryderon a godwyd ar lafar drwy'r system rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Er nad oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol, roedd systemau ar waith i nodi unrhyw themâu a oedd yn dod i'r amlwg ac ymdrin â nhw pe byddent yn codi.

Roedd y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith ac roedd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r staff yn glir. Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth o ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd, gan gynnwys pwysigrwydd bod yn agored ac yn onest gyda chleifion pan fydd pethau'n mynd o chwith. Cadarnhaodd y cofnodion fod staff wedi cael hyfforddiant priodol a'u bod yn cael eu hannog i godi pryderon a chyfathrebu'n agored â chleifion yn unol ag egwyddorion y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis wedi rhoi systemau ar waith i gofnodi a rheoli digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion. Roedd digwyddiadau niweidiol yn cael eu cofnodi'n electronig drwy system reoli'r practis, a oedd yn ei gwneud yn bosibl i'r practis ddogfennu, adolygu a monitro digwyddiadau. Gallai'r staff roi enghraifft o ddigwyddiad diweddar lle roedd ocsigen brys wedi'i roi i glaf. Roedd gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael ei rhannu â'r staff drwy gyfarfodydd tîm er mwyn hyrwyddo gwersi a ddysgwyd ac ymwybyddiaeth drwy'r practis cyfan. Roedd y trefniadau a oedd ar waith yn cefnogi'r broses o roi gwybod am ddigwyddiadau a'u trafod ac yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu i'r tîm ehangach.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd yn barhaus drwy raglen sicrhau ansawdd strwythuredig a gweithgarwch archwilio rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cymryd rhan mewn mentrau gwella ansawdd blynyddol ac yn gweithio'n agos gyda phractisau eraill o fewn y sefydliad i rannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da. Roedd archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn monitro perfformiad a nodi cyfleoedd i wella.

Roedd yr archwiliadau yn cynnwys presgripsiynu gwrthficrobaidd, mynediad i bobl anabl, diogelu data (GDPR), hylendid dwylo, atal a rheoli heintiau, cadw cofnodion, rheoli gwastraff gofal iechyd ac amseroedd aros. Roedd y practis hefyd wedi cwblhau archwiliadau iechyd a diogelwch ac archwiliad yn ymwneud â rhoi'r gorau i smygu. Roedd y staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar roi Ymyriadau Byr ar gyfer Rhoi'r Gorau i Smygu, a oedd yn eu galluogi i helpu cleifion i wella iechyd y geg a'u hiechyd cyffredinol.

Roedd y practis yn hyrwyddo dysgu ar y cyd a datblygiad proffesiynol drwy drefniadau adolygu gan gymheiriaid o fewn y practis a thrwy sefydliad ehangach y darparwr. Roedd y staff hefyd yn cael budd o gysylltiadau â phractisau hyfforddi sylfaen deintyddol o fewn grŵp y darparwr, a oedd yn rhoi cyfleoedd i glinigwyr gael trafodaethau, cymorth

proffesiynol ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Yr archwiliad clinigol mwyaf diweddar a gwblhawyd gan y practis oedd archwiliad presgripsiynu gwrthficrobaidd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ym mis Mai 2026. Roedd y practis hefyd yn cynnal archwiliadau cadw cofnodion yn rheolaidd er mwyn monitro ansawdd cofnodion cleifion a sicrhau bod safonau dogfennu yn cael eu cynnal.

Dangosodd y dystiolaeth fod y practis yn ymgysylltu'n weithredol â mentrau gwella ansawdd a gynigiwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac yn defnyddio'r adnoddau hyn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a gwneud gwelliannau'n barhaus.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y practis yn cydweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid gofal iechyd er mwyn helpu i ddarparu gofal cleifion diogel ac effeithiol. Roedd y staff yn cysylltu â sefydliadau allanol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys timau diogelu, meddygon teulu, gwasanaethau gofal eilaidd a darparwyr gofal iechyd eraill, yn ôl yr angen. Roedd y practis hefyd yn ymgysylltu'n weithredol â grwpiau clwstwr deintyddol lleol, a oedd yn ei gwneud yn bosibl i'r practis rannu gwersi a ddysgwyd, cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chyfrannu at fentrau gofal iechyd ehangach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol y Rhws

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol y Rhws

Dyddiad yr arolygiad: 21 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad: